



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa
Yr Athrofa Professional Learning Partnership

Transforming Addysg Gyda'n Gilydd Transforming Teaching Together

Llawlyfr Myfyrwyr Profiadau Dewisol

BA3

27.11.2023 - 01.12.2023

Rhesymwaith

Mae'r Profiad Dewisol yn gyfle datblygiad proffesiynol i athrawon dan hyfforddiant sy'n digwydd mewn lleoliad ysgol ac mae'n canolbwyntio ar ennill gwybodaeth a dealltwriaeth ddyfnach o faes sy'n ymwneud â diddordeb personol. Mae'r profiad dewisol wedi'i gynllunio i hwyluso myfyrwyr-athrawon i dreialu ystod o ddulliau ymchwil i gasglu data sy'n ymwneud â ffocws a ddewiswyd a gall gynnwys y gweithgareddau canlynol.

Arsylwi	Cyfweliadau grŵp ffocws	Darllen ymchwil
Cyfweliadau lled-strwythuredig	Cyfweliadau staff unigol/disgyblion	Holiaduron

Yn ystod yr ymweliad, dyrannir amser ar gyfer gwahanol fathau o weithgarwch er mwyn sicrhau bod gan bob unigolyn ystod eang o brofiadau mewn pwnc/thema dan sylw. Y bwriad yw i ddarpar athrawon gael profiad tebyg, fel cyfoethogi eu dealltwriaeth a chaniatáu datblygu sgiliau ymchwil a gwarediadau fel rhan o'r modiwl ECAD6010.

Ar ôl gwneud y profiadau dewisol, Mae'r athrawon dan hyfforddiant yn rhannu eu canfyddiadau yn yr ysgol leoliad ar y diwrnod olaf i ddangos eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth newydd a gafwyd. Gellir gwneud hyn trwy ddefnyddio model arfer da Estyn, sydd ar gael trwy ddilyn y ddolen ganlynol:

<https://www.estyn.gov.wales/effective-practice/improving-wellbeing-and-standards-attainment>

Gellir defnyddio'r Profiad Dewisol i gwblhau Templed Profiad Proffesiynol, gan ddefnyddio'r crynodeb Rhannu fel darn o dystiolaeth. (Atodiad 3)

Trefniadau

Bydd electives yn digwydd o fewn eu rhwydwaith eu hunain a bydd Network Leads yn cyd-fynd â diddordebau myfyrwyr-athrawon gyda'r lleoliadau sydd ar gael. Bydd pob profiad yn amrywio ychydig yn ôl y lleoliad, fodd bynnag, disgwylir i bob myfyriwr dreulio 5 diwrnod yn yr ysgol a bydd y 'Cydlynnydd Profiad Dewisol' yn arwain eu hymweliad. Dylai'r 'Cydlynnydd Profiad Dewisol' fabwysiadu rôl y trafodwr wrth gynnal cam cyfrannau'r Electives a bydd hyn yn caniatáu cyfleoedd i ymgysylltu'n broffesiynol trwy ddeialog a rhannu syniadau a myfyrdodau.

Disgwyliadau

Rôl y darpar athro:	Rôl yr ysgol:
Email school to introduce themselves and inform of chosen focus/proposal.	Dyrannu aelod o'r staff yn 'gydlynnydd profiadau dewisol' i'r tîm darpar athrawon
Ymgysylltu'n llawn â phrofiad yr elfennau dewisol er mwyn gwella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth	Sicrhau y caiff y darpar athrawon gymorth gan aelodau staff allweddol gydol y profiad
Cynnal ymchwil bersonol sy'n gysylltiedig â'r maes/pwnc	Darparu ystod eang o gyfleoedd i ddarpar athrawon gasglu gwybodaeth
Rhannu'r profiad ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd mewn modd proffesiynol	Ymroi i ddeialog fyfyrion gyda'r darpar athrawon ar wahanol adegau a chroesawu arsylwadau a sylwadau.
Ymddwyn yn foesegol yn unol â chanllawiau BERA (2018)	
Treialu a gwerthuso amrywiaeth o offer ymchwil.	

Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol Cyngor y Gweithlu Addysg:

Disgwylir proffesiynoldeb yn unol â chod ymddygiad Cyngor y Gweithlu Addysg gan bob rhanddeiliad drwy gydol y profiad:

<https://www.ewc.wales/site/index.php/en/fitness-to-practise/code-of-professional-conduct-and-practice-pdf/file.html>

British Educational Research Association (2018) *Ethical guidelines for educational research*. 4th edn. Available at:


<https://www.bera.ac.uk/researchers-resources/publications/ethical-guidelines-for-educational-research-2018>

Mae gwneud cysylltiadau â newidiadau presennol yn y polisi addysg yn hollbwysig, felly'r egwyddorion cyffredinol a fydd yn llywio meddylfryd y darpar athrawon yw'r pedwar diben a gynigir gan Donaldson (2015).



(Donaldson, 2015)

Yn ogystal, bydd y darpar athrawon yn cyflawni'r gweithgaredd mewn rôl ymarferydd adfyfyriol drwy ddilyn y model a amlinellir isod:



Yr Athrofa (2017)

Strwythur posibl ar gyfer y Profiad Dewisol (Sylwer: gall ysgolion fod yn hyblyg)

Dyddiad	Gweithgarwch
Diwrnod 1	Cwrdd – Cynefino

27.11.23	• Diwrnod cynefino fydd y diwrnod cyntaf er mwyn dod i adnabod yr ysgol e.e. disgwyliadau ynghylch cyrraedd/ystafell ganolog, gwybodaeth am yr ysgol, taith ddysgu o amgylch yr ysgol, gweledigaeth yr ysgol, gwaith yn y gymuned • Dylai'r ysgol gyfleu ei pholisïau/gweledigaeth/arfer o ran maes diddordeb profiad dewisol y darpar athrawon • Bydd athrawon dan hyfforddiant eisoes wedi rhannu eu cynigion ar gyfer ymchwil Dewisol gyda'r Cydgysylltydd. Yn ystod y dydd rhaid i athrawon dan hyfforddiant drefnu eu hamserlenni ar gyfer yr wythnos. Dylai'r amserlen gynnig ystod eang o gyfleoedd i gasglu data. Gall gynnwys amser dan arweiniad yn ogystal â slotiau gwaith annibynnol. • Dylai darpar athrawon ddechrau nodi cyfranogwyr posibl ar gyfer eu hastudiaeth ymchwil a gallant ofyn am gefnogaeth y Cydlynnydd i gyflawni hyn wrth baratoi ar gyfer diwrnodau 2 a 3.
Diwrnod 2 28.11.23	Profi – Casglu Data • Mae athrawon dan hyfforddiant yn dechrau dilyn eu trywydd ymchwilio a chasglu tystiolaeth ar eu ffocws ymchwil dewisol. Dulliau i gynnwys arsylwi, cyfweiliadau a holiaduron.
Diwrnod 3 29.11.23	Profi – Casglu Data • Mae myfyrwyr yn parhau i ddilyn trywydd eu hymchwiliad. Dylent allu cwblhau casglu data heddiw.
Diwrnod 4 30.11.23	• Profi - Adfyfrio wrth baratoi i Rannu canfyddiadau • Bydd y diwrnod hwn yn ddiwrnod myfyriol i athrawon dan hyfforddiant. Mae angen amser i dynnu ar ddarllen cefndirol a wnaed, gan ei gysylltu ag ymarfer a welwyd er mwyn datblygu dadansoddiad beirniadol. • Dylai athrawon dan hyfforddiant ddefnyddio amser heddiw i adolygu ac egluro agweddau heb eu hateb o'u hymchwil. • Bydd angen amser heddiw ar athrawon dan hyfforddiant i baratoi eu canfyddiadau cryno a'u templed profiad proffesiynol yn barod ar gyfer yfory.
Diwrnod 5 01.12.23	Rhannu canfyddiadau • Cyfle i athrawon dan hyfforddiant gyflwyno eu canfyddiadau i gyfoedion a chydweithwyr ysgol. Dylid cadw'r Crynodeb Dewisol yn y ffolder Cynllunio OneDrive. • Strwythur a awgrymir: Rhesymwaith dros y profiad dewisol Amlinelliad o weithgareddau a chasglu data a wnaed Adolygiad o ganfyddiadau llenyddiaeth Beth sydd wedi bod yn ymarferol Safbwyntiau disgyblion ac athrawon Cyfyngiadau a llwyddiant casglu data Cwestiynau dal heb eu hateb Adolygiad o ddadansoddi data sy'n gysylltiedig â Safonau Proffesiynol Argymhellion yn y dyfodol ar gyfer ymarfer Darpar Athrawon Rhestr Gyfeiriadau (Cyfeiriwch at ddulliau cyfeirnod i'r Brifysgol)

Yn dibynnu ar ffocws y profiad dewisol a ddewisir, bydd cyfleoedd i'r darpar athro ddefnyddio yr adfyfrio yn deillio o'r profiad dewisol i lenwi nifer o'r penawdau yn perthyn i'r safonau proffesiynol sydd i'w gweld yn adran gweithlyfr y Safonau Proffesiynol o'r PDP (Tab 6). Er enghraifft:

- "Addysgeg, Addysgu a Dysgu" – Y pedwar diben; Themâu trawsgwricwlaidd; Rheoli'r amgylchedd dysgu; Cynnwys partneriaid mewn dysgu.
- "Arweinyddiaeth" – Cymryd cyfrifoldeb personol.
- "Dysgu proffesiynol" – Darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil; Rhwydweithiau a chymunedau proffesiynol; Dysgu proffesiynol parhaus.
- "Cydwethredu" – Gweithio gyda chydweithwyr yn yr ysgol.

Gellir defnyddio'r Cofnod Tystiolaeth Ymholi Darpar Athrawon (STEER) i helpu i gofnodi tystiolaeth ystyrlon a phwrrpasol bosibl (gweler Atodiad 3).

Atodiad: 1

Calendr Personol

Dyddiad		
Dydd Llun		
Dydd Mawrth		

Dydd Mercher		
Dydd lau		
Dydd Gwener		

Atodiad: 2

Dyddlyfr Adfyfyriol

Dyddiad	Digwyddiad	Sylwadau

Atodiad: 3

PDP A CHYSYLLTIADAU Â'R SAFONAU PROFFESIYNOL

Bydd eich profiad dewisol yn eich cynorthwyo i ddatblygu'r Safonau Addysgu Proffesiynol. Ystyriwch sut y gallech ddefnyddio'r profiad i greu Templedi Profiad Proffesiynol (TPP) ar gyfer Tab 6 (Gweithlyfr Safonau Proffesiynol) Cofiwch mai dim ond i uchafswm o dri llinyn y gallwch gysylltu'ch templed.

Gweler y ddogfen SWAY am arweiniad <https://sway.office.com/1yi6ahxZApt6y9ug?ref=Link>

ADDYSGEG Yn ystod y cyfnod prawf oedd cyfleoedd i archwilio strategaethau i fireinio, hyrwyddo a dylanwadu ar ddysgwyr?	
CYDWEITHREDU ^A oedd cyfleoedd i weithio'n gynhyrchol gyda'r holl bartneriaid mewn dysgu er mwyn ymestyn effeithiolrwydd proffesiynol?	
ARLOESI A wnaethoch chi ddefnyddio golwg arloesol wedi ei enghreifftio drwy ddatblygu technegau a dulliau gweithredu wedi eu rheoli a'u mesur i wella canlyniadau addysgeg?	

DYSGU

PROFFESIYNOL

A oedd cyfleoedd i ymestyn
gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth a
gallant ddangos sut mae myfyrio a bod
yn agored i herio a chefnogi yn llywio
dysgu proffesiynol er mwyn datblygu
addysgeg yn raddol.

ARWEINYDDIAETH

A oedd cyfleoedd i gefnogi
ymdrechion eraill ar draws yr ysgol a
thu hwnt er mwyn cyflawni
uchelgeisiau addysgol Cymru?